

I Weinidogion Cymru,

Dyletswyddau Adrodd Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013

Yn unol â'r dyletswyddau o dan Adrannau 7 (3) a 10 (2) Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013, gweler isod adroddiad blynyddol Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.

<p>Y camau a gymerwyd i annog teithiau llesol</p>	<ul style="list-style-type: none">- Cynhaliwyd ymgynghoriad ffurfiol ar y Mapiau Rhwydwaith Integredig am 12 wythnos rhwng mis Gorffennaf a mis Medi 2017. Defnyddiwyd arolwg ar-lein a chynhaliwyd sawl digwyddiad ymgysylltu â rhanddeiliaid, gan gynnwys 13 ymgynghoriad cyhoeddus;- Darparwyd hyfforddiant cerddwyr Kerbcraft i 765 o ddisgyblion;- Cafodd 905 disgybl hyfforddiant beicio y Safon Genedlaethol, gydag 579 yn cael eu hyfforddi at lefel 1 a 326 yn cael eu hyfforddi at lefel 2.- Mae sesiynau Teithio Llesol wedi cael eu cynnal ar gyfer disgyblion ysgol gynradd ac uwchradd sy'n rhan o raglen Teithiau Llesol Sustrans. Mae'r rhain wedi cyfrannu at y broses ymgysylltu â rhanddeiliaid fel rhan o ddatblygu'r Mapiau Rhwydwaith Integredig;- Gwnaed gwaith gyda Choleg Penybont i'w cynorthwyo i sicrhau eu Gwobr Platinwm y Safon Iechyd Corfforaethol a'u paratoi i greu cynllun teithio diwygiedig ar gyfer campws Pen-y-Bont;- Roedd Cynllun Beicio i'r Gwaith Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ar agor i geisiadau staff rhwng mis Chwefror a mis Ebrill 2017, a bu i 83 o aelodau staff fanteisio ar y cynllun;- Cafodd datganiadau'r wasg eu paratoi i godi ymwybyddiaeth o lwybrau a chyfleusterau newydd a gyflwynwyd yn 2016–17;- Cynhaliwyd cyfarfodydd Cynllun Mynediad Cymunedol gydag amryw rhanddeiliaid (gan gynnwys grwpiau cymunedol a chynghorau tref/cymuned) er mwyn datblygu Cynlluniau Mynediad Cymunedol i ddeall symudiadau
---	--

	<p>teithio ar hyn y bryd ac yn y dyfodol er mwyn cael unrhyw gynigion ariannol posibl;</p> <ul style="list-style-type: none"> - Cysylltu parhaus â chydweithwyr o Adrannau Cynllunio, Priffyrdd ac Addysg er mwyn eu hannog i hyrwyddo a darparu ar gyfer teithio llesol fel rhan o ddatblygiadau newydd; - Rhoddwyd cyflwyniad ar y Ddeddf Teithio Llesol i Aelodau o Bwyllgor Rheoli Datblygu Adran Cynllunio'r Cyngor er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r Ddeddf a'r goblygiadau ar gyfer ceisiadau cynllunio, gan gynnwys datblygiadau newydd; - Parhau i weithio mewn partneriaeth gyda Chymdeithas Tai Cymoedd i'r Arfordir i hyrwyddo teithio llesol mewn prif gynlluniau ystadau / gweithgareddau hyrwyddo; - Mae rhaglenni Love to Walk a Health Walk yn defnyddio llwybrau newydd lle bo hynny'n bosibl ac mae cyfranogwyr yn cael eu hysbysu am lwybrau newydd a lle maent yn mynd;
<p>Y camau a gymerwyd i sicrhau llwybrau teithio llesol newydd a'r cyfleusterau a'r gwelliannau cysylltiedig</p>	<p><u>Cronfa Trafnidiaeth Leol</u></p> <ul style="list-style-type: none"> - Cwblhawyd llwybr Teithio Llesol o'r A48 i Ystad Ddiwydiannol Waterton fel rhan o gynllun i uwchraddio ffordd gyswllt strategol o'r A48 i'r A473 i safonau derbyniol; - Aethpwyd â'r cynllun yn ei flaen i gwblhau Cyfnod 2 o estyn llwybr NCN 885 i ganol dref Pen-y-bont ar Ogwr. <p><u>Llwybrau Diogel mewn Cymunedau</u></p> <ul style="list-style-type: none"> - Cwblhawyd Cyfnod 1 o rwydwaith o lwybrau sy'n gwasanaethu Ysgol Gynradd Croesty ac Ysgol Gyfun Pencoed gan gynnwys llefydd diogel i barcio beiciau yn y ddwy ysgol; <p><u>Y Gronfa Loteri Fawr – Cronfa Cymunedau'r Arfordir</u></p> <ul style="list-style-type: none"> - Cwblhawyd rhan o lwybr oddi ar y ffordd a rennir, wedi'i ddynodi fel rhan o Lwybr Beicio Cenedlaethol 88 o draeth Rest Bay i Draeth/Harbwr Coney ym Mhorthcawl; <p><i>Mae'r Gronfa Trafnidiaeth Leol, cynllun Llwybrau Diogel mewn Cymunedau a Chronfa Cymunedau'r Arfordir wedi darparu cyfanswm cyfunol o 5.19km o</i></p>

	<p><i>seilwaith ychwanegol ar gyfer teithio llesol.</i></p> <p><u>Cynllunio Seilwaith Cysylltiedig</u></p> <ul style="list-style-type: none"> - Mae seilwaith Teithio Llesol wedi cael ei estyn fel rhan o gyflawni datblygiadau parhaus drwy'r broses gynllunio, e.e. Parc Derwen
<p>Costau yr aethpwyd iddynt ar gyfer llwybrau a chyfleusterau Teithio Llesol newydd a gwella'r llwybrau a'r cyfleusterau Teithio Llesol sy'n bodoli eisoes a gynhelir yn y flwyddyn ariannol flaenorol lawn.</p>	<p><u>Cronfa Trafnidiaeth Leol</u></p> <ul style="list-style-type: none"> - Cwblhau llwybr Teithio Llesol o'r A48 i Ystad Ddiwydiannol Waterton fel rhan o gynllun i uwchraddio ffordd gyswllt strategol o'r A48 i'r A473 i safonau derbyniol: £989,107; - Mynd â'r cynllun yn ei flaen i gwblhau Cyfnod 2 o estyn llwybr NCN 885 i ganol dref Pen-y-bont ar Ogwr: £22,574; - Mapio Teithio Llesol: £10,000 <p><u>Llwybrau Diogel mewn Cymunedau</u></p> <ul style="list-style-type: none"> - Cwblhau Cyfnod 1 o rwydwaith o lwybrau sy'n gwasanaethu Ysgol Gynradd Croesty ac Ysgol Gyfun Pen-coed: £401,751.91 <p><u>Y gronfa loteri fawr - Cronfa Cymunedau'r Arfordir</u></p> <ul style="list-style-type: none"> - Cwblhau rhan o lwybr oddi ar y ffordd a rennir, wedi'i ddynodi fel rhan o Lwybr Beicio Cenedlaethol 88 o draeth Rest Bay i Draeth/Harbwr Coney ym Mhorthcawl: £299,894 <p><u>Diogelwch ar y Ffyrdd</u></p> <ul style="list-style-type: none"> - Kerbcraft: £43,000 - Hyfforddiant Beicio: £12,900

Yn ychwanegol at yr uchod (dewisol):

<p>Gwariant dangosol ar gyfer llwybrau a chyfleusterau Teithio Llesol newydd, yn ogystal â gwelliannau i lwybrau a chyfleusterau Teithio Llesol presennol sy'n cael eu hariannu yn llawn neu'n rhannol gan drydydd partion.</p>	<ul style="list-style-type: none"> - Ddim yn berthnasol
---	--

Gwybodaeth ychwanegol (dewisol)

Rydym wedi cael trafodaethau cadarnhaol gyda Threnau Arriva Cymru

i ymgorffori seilwaith Teithio Llesol gwell fel rhan o'r gwaith o ailddatblygu gorsaf drenau Pen-y-bont ar Ogwr. Bydd hyn yn cynnwys darparu rhagor o lefydd i barcio beiciau yn ogystal â chysgodfeydd i orchuddio'r llefydd parcio. Mae hefyd yn cynnwys gwella'r amgylchedd ar gyfer cerddwyr y tu allan i'r orsaf trwy welliannau i'r cwrt blaen, megis croesfannau newydd i gerddwyr a llwybrau traed lletach. Yn ogystal, cafwyd trafodaethau ynghylch y posibilrwydd o wella gwybodaeth i gerddwyr a beicwyr er mwyn gwella cysylltiadau rhwng yr orsaf a mannau gwaith, sefydliadau addysg a chyfleusterau adwerthu cyfagos.

Rwy'n cadarnhau y bydd yr adroddiad hwn yn cael ei gyhoeddi yn unol â'r Canllawiau Darparu Statudol.

Prif Weithredwr